1·6

# DAMWEINIAU

TORCALONUS

# YN NGWEITHIAU GLO

# DYFFRYN LLYNFI.

A

# LOWER PLACE PIT, BLACKWOOD.

Dydd Iau, Ionawr 11eg, tuag un o'r gloch, bu tanchwa ddychrynllyd yn ngwaith glo Mr. Oakwood, Dyffryn Llynfi, trwy yr hon y collodd un-ar-ddeg o bersonau eu bywydau. Ofnir mai esgeulusdra y gweithwyr fu yr achos. Cafwyd lamp *agored* yn ymyl un o'r personau gollasant eu bywydau.

Tuag wythnos yn ol, bu damwain yn Lower Place Pit, Blackwood, eiddo Mr. Protheroe, pan y collodd pump o ddynion eu bywydau wrth sincio pwll.

Löwyr Cymru, gallwn ddysgwyl
Eich bod chwi 'n ofalus iawn
Am eich einioes, heb eich cymell
Unrhyw foreu na phrydnawn;
Bod yr hen yn gwylio'n ddyfal
Dros yr ieuainc nos a dydd;
Ymollynga 'r ieu'nctyd, weithiau,
Ar fin angeu i fod yn rhydd.

9259

Nid rhyw lwmp o gnawd ac esgyrn,
  Heb ddim arall, ydyw dyn;
Weithwyr anwyl, o bob oedran,
  Dwys ystyriwch hyn bob un;
Er i ddamwain ddryllio'r babell,
  Nes ei gwneud yn wael eu llun,
Mae mewn dyn ryw ran *anfarwol:*
  Hen ac ieuainc, 'styriwch hyn.

Pan yn teimlo yn ddiogel,
  Heb fod neb yn teimlo braw—
Ddim yn meddwl fod yr angeu
  Glas, â'i ddyrnod drwm gerllaw,
Taniwyd ergyd, 'r ochrau rwygwyd,
  Fe ddirwasgwyd pedwar dyn;
Aeth y bywyd yno 'n aberth,
  Gwnawd y cyrph yn wael eu llun.

Trwm fu 'r tro yn Nyffryn Llynfi,
  Dwys ystyriwch hyn i gyd,
Un ar ddeg o'n cydfforddolion
  Yrwyd draw i'r bythol fyd!
Fe fu tanchwa yn ddisymwth,
  Chwalfa erchyll a wnaeth hon!
Crynai'r ddaear dros filltiroedd,
  Siglai'r cwbl oll o'r bron!

Trwm iawn oedd colledu'r meistri,
  'Roedd eu colled hwy yn fawr;
Mae 'r colledion weithiau, 'n ddiau,
  Bron a'u llethu hwynt i'r llawr;
Ond 'r oedd colli y bywydau
  'N llawer mwy na'u colled hwy;
'Nol i'r meistriaid gael adferiad,
  Teimla y perth'nasau glwy'.

X2051983B3

Hawdd in' bellach oll yw gweled
  Mai ansicr einioes dyn;
Tlawd, cyfoethog, heb wahaniaeth,
  'R ydym oll yn hyn yr un:
"Nac ymffrostia o'r dydd y foru,"
  Yw lleferydd grasol Duw;
Teilwng ydyw o wrandawiad
  Astud pawb o ddynol ryw.

Deued holl *deuluoedd* Cymru—
  Riaint, plant, pob oed heb ball,
I ystyried mai peryglus
  Ydyw rhodio llwybrau'r fall:
Y mae cellwair—tyngu—rhegi,
  Llygredigaeth o bob rhyw,
'N uniongyrchol oll yn tynu
  Ar ddyn anfoddlonrwydd Duw.

Bywyd sobr a rhinweddol,
  Gwerthfawrogi moddion gras;
Plygu i efengyl heddwch,
  Tra b'om ar y ddaear lâs;
Wrth fyw felly ni gawn fynwes
  Daeel wrth fyn'd trwy y byd,
Wrth adael cawn ein symud
  Draw i barthau'r Ganaan glyd.

Boed y gweddwon sydd mewn galar,
  O dan ofal Duw o hyd;
Dan ei gysgod caffont drigo
  Tra b'ont yma yn y byd:
Mae yn Noddwr i'r ymddifad
  Yn mhob oes ac yn mhob lle,
Ymddirieded y teuluoedd
  Yn ymgeledd Brenin ne'.

# Two Disastrous Accidents,

At Llynvi Valley, on Thursday, Jan. 11, 1872, an the chain broke, they fell, and were instantly killed. explosion took place, by which eleven men lost their lives. The cause is not yet fully known.

About a week ago at Lower Place Pit, Blackwood, Mr. Protheroe's, several persons were sinking a pit, when supposing all safe, they fired a shot, as they used to do; the wood in the sides gave way. Some escaped unhurt, 4 were crushed awfully, and lost their lives—a man named W. Tovey, one of his legs became entangled in the timber, and he could not climb up, the water engine having been injured could not draw up the water, and the poor fellow had to see it rising till he was drowned. The names of the lost are: W. Treasure, 44, wife and 7 children; W. Johnson, 44, wife and 2 children; W. Tovey, wife and 2 children; M. Richards, 28, single; W. Poole, 27, single.

Though we know not at what moment
  Or what manner death will call;
That he will come at some period,
  Seriously consider all:
Act with reason and with judgement,
  Hear the warnings God does give;
Bow beneath the Saviour's Scepter,
  And receive Him, you shall live.

The ways of sin leads to destruction,
  Tho' they here will promise ease;
A sober life will lead to honor,
  And religion leads to peace;
Peace with God, and peace with conscience,
  Peace with all mankind around,
And in death eternal safety,
  We have here a solid ground.

GWLADGARWR.

E. & J. GRIFFITHS, ARGRAFFWYR, ABERTAWY.